monmouthshire
sir fynwy

Monmouthshire County Council
County Hall, Rhadyr, Usk
Monmouthshire NP15 1GA
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brynbuga, Sir Fynwy NP15
1GA
1st June 2026

**Annwyl Ms de-Courcey a Ms MacFarlane,**

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2018–2033) Archwiliad**
**Cais am Ohirio Sesiynau Gwrandawiad**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ysgrifennu yng nghyswllt yr archwiliad cyfredol o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae Rheoliad 23 o *Reoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru)2005* yn ffurfio rhan o'r fframwaith statudol sy'n llywodraethu archwiliad annibynnol o Gynlluniau Datblygu Lleol. I sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r gofynion statudol hyn, mae'r Cyngor yn ystyried fod angen gohirio'r sesiynau gwrandawiad.

Mae'r Cyngor yn tanlinellu pwysigrwydd lleihau tarfu ar amserlen yr archwiliad ac mae felly'n gofyn i'r gwrandawiadau gael eu hailgynnull cyn gynted ag sydd modd, i alluogi'r archwiliad i fynd yn ei flaen heb oedi a chadw momentwm wrth symud y Cynllun ymlaen.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymroddedig i symud yr archwiliad ymlaen yn unol â'r fframwaith statudol perthnasol.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gytuno ar y dyddiadau cynharaf posibl i ailgynnull y gwrandawiadau.

Dymuniadau gorau,

Craig O'Connor MRTPI

Prif Swyddog – Lle a Llesiant Cymunedol
Cyngor Sir Fynwy